Pwyllgor Datblygu Economaidd **EDC-04-00(p.6)**

**Dyddiad:** **1 Mawrth 2000**
**Lle:** **Ystafell Bwyllgora Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Teitl:** **Swyddogaethau Menter y Cynghorau Hyfforddi a Menter (CHM)**

## Diben

1. Diben y papur hwn yw rhoi gwybodaeth fanylach am y prif gynlluniau o fewn rhaglen fenter gyfredol y CHM, ynghyd â'r costau cysylltiedig. Gofynnwyd am yr wybodaeth hon gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr pryd yr ystyriwyd papur EDC 02-00(p2) ar reoli'r swyddogaethau hyn yn y dyfodol. Ers hynny, yn ei gyfarfod llawn ar 1 Chwefror, cymeradwyodd y Cynulliad yr egwyddor o roi'r cyfrifoldeb am swyddogaethau menter sy'n gysylltiedig â sgiliau i Gyngor newydd Addysg a Hyfforddiant Cymru.

## Argymhelliad

2. Bod y Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth yn y papur hwn. Dylai helpu i lywio'r argymhellion a gyflwynir gan y Pwyllgor yn y pen draw i'r Ysgrifennydd dros Ddatblygu Economaidd ar reoli'r cynlluniau hyn yn y dyfodol – ar ôl y broses ymgynghori gyda busnesau a sefydliadau eraill sydd â diddordeb a lansiwyd yn ddiweddar gan Gadeirydd y Pwyllgor.

## Rhaglenni Menter y CHM – Y Prif Gynlluniau

3. Nod allweddol y rhaglen yw helpu i ddatblygu busnesau bach a chanolig (BBaCh) – drwy ddarparu gwasanaethau datblygu adnoddau dynol/datblygu sgiliau sydd wedi'u teilwra at anghenion penodol, a gwasanaethau datblygu busnes cyffredinol er mwyn diwallu'r anghenion sydd gan y cwmni. Mae chwech prif gynllun, sydd ar gael ar draws Cymru, o dan y rhaglen, a rhyngddynt disgwylir y bydd 4-5,000 o BBaCh'au yn cael cymorth ym 1999-2000. Felly, mae nifer da o fusnesau'n manteisio ar y cynlluniau unigol, ond dichon y gellid sicrhau gwelliant pellach.

4. Wrth lunio contractau gyda'r CHM ar gyfer y gwaith o reoli'r rhaglen hon, nodir amrediad o allbynnau blynyddol, a chaiff y cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau hyn ei fonitro'n rheolaidd. Nodir isod fanylion y prif gynlluniau cymorth a'r targedau cysylltiedig ar gyfer 1999-2000.

### Datblygu adnoddau dynol/sgiliau

Fel man cychwyn i'r gwaith o gyflwyno diwylliant cryfach o hyfforddi a datblygu o fewn busnesau bach, mae'r CHM yn trefnu bod anghenion hyfforddiant busnesau unigol yn cael eu dadansoddi. Fel rheol, mae'r dadansoddiad hwnnw'n arwain at gymorth o dan un, neu fwy, o'r

cynlluniau canlynol:-

a. Menter Hyfforddi Cwmnïau Bach

Mae’r cynllun hwn yn hybu hyfforddiant cynlluniedig mewn cwmnïau bach yn y sector preifat (fe’i cyfyngir i’r rheini sy’n cyflogi llai na 50). Mae’n mynd ati i wneud hyn drwy helpu busnesau bach i ddynodi gweithiwr neu weithwyr allweddol i hyrwyddo hyfforddi a datblygu ar draws y cwmni. Darperir hyfforddiant NVQ priodol fel cam cyntaf i helpu’r hyrwyddwr i ymgymryd â’r swyddogaeth hon. Wedyn, cytunir ar gynllun hyfforddi ar gyfer y cwmni, a’r cynllun hwnnw’n gydnaws ag amcanion busnes y cwmni. Mae’r cynllun yn fodd i helpu i roi’r cynllun hyfforddi ar waith mewn modd sy’n cynnwys pob aelod o’r gweithlu. Mae’r CHM yn gweld bod y cynllun yn ffordd hynod ddefnyddiol o annog busnesau bach i fynd ar drywydd Buddsoddwyr mewn Pobl.

Eleni, ar lefel Cymru gyfan, prif dargedau’r CHM yw cael 715 o gwmnïau i gymryd rhan yn y cynllun, ac anelu at gwblhau 605 o gynlluniau hyfforddi.

b. Buddsoddwyr mewn Pobl

Nod y cynllun hwn, sy’n gweithredu ledled y DU, yw gwella perfformiad sefydliadau ym maes busnes drwy ddatblygu’r gweithlu mewn ffordd effeithiol. Yn wahanol i’r prif gynlluniau eraill o fewn cynllun menter y CHM, caiff y cynllun hwn ei hyrwyddo ymhlith sefydliadau bach a mawr yn y sector preifat yn ogystal ag yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol. Darperir amrediad o gymorth gan y CHM i sefydliadau i’w helpu yn y lle cyntaf i ymrwymo’u hunain i’r broses Buddsoddwyr mewn Pobl, ac wedyn cymryd y camau sydd eu hangen os am gael eu hachredu’n Fuddsoddwyr mewn Pobl. Mae’r cymorth a roddir gan y CHM yn cynnwys help – naill drwy eu staff eu hunain neu drwy ymgynghorwyr – i gwmnïau sefydlu cynllun hyfforddi ar draws y cwmni, a’i roi ar waith. Disgwylir i’r sefydliadau hynny sy’n cael cymorth gan y CHM gyfrannu tuag at gostau’r cymorth a gynigir gan ymgynghorwyr etc. – yn fynych ar sail 50/50. Fodd bynnag, yn achos cwmnïau sy’n cyflogi llai na 50, mae dewis gan y CHM i beidio â mynnu eu bod yn cyfrannu’n ariannol.

Yn y maes hwn, mae’r CHM wedi bod yn anelu at gyrraedd y Targedau Cenedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant. Y targedau ar gyfer eleni yw bod 450 o sefydliadau ar draws Cymru yn ymrwymo’u hunain i’r broses Buddsoddwyr mewn Pobl, a bod 300 yn cael eu hachredu’n Fuddsoddwyr mewn Pobl.

c. Datblygu Rheolwyr

Mae sgiliau rheoli gwell yn hanfodol i BBaCh’au yng Nghymru os yw busnesau am fod yn gystadleuol, a dyma un o’r blaenoriaethau a nodwyd yn yr arolwg Sgiliau Dyfodol Cymru a gynhaliwyd ym 1999. Mae’r cymorth a roddir gan y CHM yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau rheoli strategol o fewn BBaCh’au, ac yn fynych, mae cyswllt uniongyrchol rhwng y cymorth a

roddir a'r anghenion a nodwyd drwy'r Menter Hyfforddi Busnesau Bach neu drwy Fuddsoddwyr mewn Pobl. Cynigir amrediad o gymorth, sy'n cael ei deilwra i fodloni anghenion cwmnïau unigol, gan gynnwys cymorth ariannol i'r rheolwyr er mwyn iddynt ennill cymwysterau perthnasol. Defnyddir ymgynghorwyr hefyd, gan roi cymhorthdal ar gyfer hynny, i hyrwyddo gwelliannau penodol o fewn timau rheoli'r cwmnïau. Eleni, nod y CHM yw helpu 1600 o BBaCh'au i ddatblygu'u rheolwyr.

**Cymorth i Ddatblygu Mentrau**

d. Cychwyn Busnesau Newydd

Nod y cynllun hwn yw darparu cymorth sydd wedi'i deilwra'n benodol i helpu'r rheini sydd am sefydlu mentrau newydd. Un o'r amcanion allweddol yw annog mwy o fentrau o ansawdd da, a'r mentrau hynny â'r potensial i oroesi yn y tymor hir, ac i dyfu. Mae'r cymorth a gynigir yn cynnwys help i ddatblygu cynllun busnes cadarn, hyfforddiant mewn sgiliau perthnasol a chymorth mentora/cynghori parhaus drwy ymgynghorydd personol. O dan y cynllun hwn, caniateir hefyd i'r CHM gynnig cymorth ariannol dewisol (hyd at £1,000) i fusnesau newydd. Mae ar gael i bawb, er bod gan y CHM dri prif grp targed: rheini sydd newydd golli eu swyddi; pobl sy'n gyflogedig ond sydd am gychwyn arni ym myd busnes, naill ai fel unigolion neu fel rhan o dîm; a graddedigion ac eraill yn y sector addysg uwch ac addysg bellach.

Eleni, y targed ar gyfer Cymru gyfan yw cynnig cymorth i 1100 o fusnesau newydd.

e. Menter Masnachwyr Unigol

Yn ei hanfod, mae dau amcan i'r fenter hon (sy'n unigryw i Gymru) – helpu i annog masnachwyr unigol i gyflogi eu gweithiwr cyntaf a thrwy hynny helpu i ehangu micro-fusnesau mewn ffordd lwyddiannus. Gan gydnabod y gallai baich gweinyddol Talu wrth Ennill (PAYE), Yswiriant Cenedlaethol etc., rwystro masnachwyr unigol rhag dod yn gyflogwyr, mae'r cynllun yn cynnig cymorth ymarferol i dywys y masnachwyr unigol drwy'r gofynion (cyfreithiol) perthnasol. Ar ben hynny, a thrwy feithrin cysylltiadau clòs â'r Gwasanaeth Cyflogi, mae'r CHM, i bob pwrpas, yn cynnig gwasanaeth recriwtio sydd wedi'i addasu at ddibenion masnachwyr unigol, gan gysylltu gweithwyr posibl – yn enwedig y di-waith – â masnachwyr unigol. Cyflwynwyd y cynllun ym mhob cwr o Gymru ym 1998 ar ôl i gynllun prawf lwyddo yn y Gogledd.

Eleni, y targed ar gyfer Cymru gyfan yw creu 375 o swyddi newydd o dan y fenter.

f. Gwasanaeth Diagnostig ac Ymgynghori

Mae'r gwasanaeth hwn yn targedu BBaCh'au sydd â'r potensial i dyfu – a thrwy ddadansoddi eu cryfderau/gwendidau, mae'n eu helpu i gael gafael ar ymgynghorwyr arbenigol i'w helpu i

wella'u perfformiad a mynd i'r afael â meysydd lle mae problemau. Mae tri prif elfen i'r cynllun – adolygiadau anffurfiol o'r busnes neu 'brofion iechyd' ar y cwmni; adolygiadau diagnostig manylach (a ddarperir gan ymgynghorwyr, a chymhorthdal yn cael ei gynnig i dalu'r ymgynghorwyr hynny), a chymorth gan ymgynghorwyr i helpu i fynd i'r afael â'r materion a glustnodwyd yn yr adolygiad/astudiaeth ddiagnostig (a chymhorthdal yn cael ei gynnig ar gyfer y gwaith hwn hefyd). Mae'r adolygiad o'r busnes/y 'prawf iechyd' yn boblogaidd iawn gyda busnesau bach yn arbennig. Efallai y bydd yn arwain at gymorth arbenigol gan ymgynghorwyr ond efallai na fydd hynny'n digwydd, gan fod hynny'n dibynnu ar y casgliadau. Yn ogystal â darparu gwybodaeth ddefnyddiol i'r cwmni, mae'r broses adolygu hefyd yn helpu'r CHM i nodi pa gymorth arall a fydd, o bosibl, yn berthnasol i anghenion y cwmni – naill ai oddi wrth y CHM ei hun neu oddi wrth asiantaeth cynnal busnes arall o fewn Cyswllt Busnes.

Eleni, y targedau ar gyfer Cymru gyfan yw cynnal 1100 o adolygiadau ar fusnesau, a chwblhau 30 o astudiaethau diagnostig a 370 o brosiectau arbenigol gan ymgynghorwyr.

**Cydgysylltiadau a marchnata**

5. Fel y nodwyd eisoes, gellir rhannu'r chwech prif gynllun a ddarperir ar draws Cymru, sy'n cael eu disgrifio ym mharagraffau 3 a 4 uchod, yn ddau brif gategori – datblygu adnoddau dynol a datblygu menter. Serch hynny, mae yna gysylltiadau cryf rhwng y cynlluniau unigol – er enghraifft rhwng y Fenter Hyfforddi Busnesau Bach a Buddsoddwyr mewn Pobl o safbwynt meithrin galluoedd o fewn y sector BBaCh. Er mai'r CHM eu hunain sy'n rheoli'r rhaglen, fel rheol, trefnir bod y cynlluniau'n cael eu darparu drwy gyfrwng <u>is-gontractau</u> gyda'r asiantaethau menter, ymgynghorwyr a chyrff lleol eraill sy'n darparu gwasanaethau. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae gan y CHM dîm o reolwyr cyfrifon yn y maes sy'n meithrin perthynas glòs gyda'r gymuned fusnes leol, gan helpu i sicrhau bod cwmnïau'n manteisio ar wasanaethau priodol a ddarperir gan y CHM neu asiantaethau eraill o dan Gyswllt Busnes. Bydd yn bwysig sicrhau bod y dull hwn o weithredu sy'n troi o amgylch y cleient yn parhau o dan y trefniadau newydd ar ôl mis Ebrill 2001.

**Y Rhaglen Fenter, a Chynlluniau Cysylltiedig**

6. Yn y paragraffau uchod, disgrifir y prif gynlluniau Cymru gyfan sy'n cael eu hariannu o dan Raglen Fenter y CHM. Cânt eu pwyso a'u mesur yn ffurfiol ar sail rhaglen dreigl, a hynny er mwyn helpu i sicrhau bod y cynlluniau'n dal yn berthnasol a'u bod yn cynnig gwerth rhesymol am arian. <u>Ar ben hynny</u> rhoddir cymorth hefyd i nifer o weithgareddau cynnal busnes cyffredinol o dan y rhaglen ar y lefel leol – er enghraifft drwy rwydweithiau rhwng cwmnïau. Fel y nodwyd yn EDC 02-00 (p2), mae'r CHM hefyd yn ategu'r gwaith hwn drwy gyfrwng mentrau <u>dewisol</u> lleol i ddatblygu busnesau, sy'n cael eu hariannu o'r cronfeydd wrth gefn, yr arian sy'n weddill, a'r Gronfa Fenter Leol. Un enghraifft o gymorth a gynigiwyd o dan y gronfa hon yw rhoi rhan o'r cyllid ar gyfer cyfleusterau megis canolfan hyfforddi Lucas yng Nghwmbrân; gwella sgiliau gweithwyr i helpu i fynd i'r afael â diffygion o ran sgiliau; a hyfforddiant penodol ar gyfer

gweithluoedd cwmnïau cynhenid neu fewnfuddsoddwyr. Yn yr un modd, bydd angen ystyried lefel y cymorth, a'r math o gymorth, a roddir o'r ffynonellau hyn wrth benderfynu ar gylchoedd gwaith y sefydliadau a fydd yn olynu'r rhai presennol, a dyrannu cyllidebau ar eu cyfer.

7. **Gofal Plant** Cyflwynwyd y Fenter Gofal Plant y tu Allan i'r Ysgol ym 1993, ac ar hyn o bryd, fe'i darperir drwy'r CHM. Y nod yw cynnig cyfle i rieni a'r rheini sy'n gofalu am blant oed ysgol chwarae mwy o ran yn y farchnad lafur drwy wella ansawdd y gofal plant sydd ar gael y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol, ac ehangu'r ddarpariaeth. Defnyddir yr arian - £900,000 ym 1999-2000 – i gynnig cymorth gyda seilwaith, gan gynnwys hyfforddiant, er mwyn ehangu'r ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael y tu allan i oriau ysgol. Mae'n fwriad gan y Cynulliad Cenedlaethol ymgynghori ar wahân ar sut y dylid defnyddio'r arian hwn yn y dyfodol a sut y dylid ei gyfeirio.

**Costau**

8. Yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, rhaglen fenter y CHM sydd i gyfrif am £10.2m o werth cyffredinol y contract rhwng y Cynulliad a'r CHM. O'r cyfanswm hwn, dyma werthoedd contractau'r CHM unigol: y De Ddwyrain - £4m; y Canolbarth - £1m; y Gorllewin - £2.5m; Celtec - £2.7m. Ar ben hynny, mae'r CHM yn rhag-weld y byddant yn gwario rhyw £2.55m eleni o'u hadnoddau dewisol (cronfeydd wrth gefn a'r Gronfa Fenter Leol) i gefnogi mentrau lleol i ddatblygu busnesau (ac eithrio prosiectau mewnfuddsoddi). Amcangyfrifir mai £2.3m (ffigur 1998-99) yw costau staffio'r CHM yng nghyswllt y rhaglen hon.

**Amserlen**

9. Rhaid penderfynu ar sut y bwriedir rheoli'r cynlluniau cynnal busnes allweddol hyn yn y dyfodol cyn i Gyngor newydd Addysg a Hyfforddiant Cymru gael ei sefydlu ym mis Ebrill 2001. Nodwyd amrediad o ddewisiadau posibl ym mhapur EDC 02-00 (p2). Er nad yw'r amserlen ar gyfer y Mesur Dysgu a Sgiliau yn effeithio'n uniongyrchol ar y mater hwn, byddai o gymorth mawr o safbwynt cynllunio at y dyfodol – o ran datrys y materion staffio cysylltiedig mewn ffordd foddhaol a threfnu contractau newydd ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn o fis Ebrill 2001 – pe bai'r Pwyllgor yn gallu gwneud ei argymhellion ar y pwnc hwn erbyn diwedd mis Mai 2000.

**Cydymffurfio/Goblygiadau Ariannol**

10. Mae pwerau'r Cynulliad yn y maes hwn yn deillio o Adran 11 o Ddeddf Datblygu Diwydiannol 1982 ac Adran 12 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973. Yng Nghymru, mae'r swyddogaethau perthnasol wedi'u dirprwyo i'r Ysgrifennydd dros Ddatblygu Economaidd. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r papur hwn, sy'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r Pwyllgor.